# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher y 6ed o Fai 2026 am 8.00yh yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cynghowyr Sarah Pask (Cadeirydd), Huw James, Dorian Lewis, Iori Saer, Christopher Smoothy & Elgan Williams

**YMDDIHEURIADAU**: Cynghorydd Wyn Evans & Cynghorydd Sir Jean Lewis

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion y CCB o'r 7fed o Fai 2025 ac fe'u derbyniwyd yn gywir.

**MATERION YN CODI**: Dim

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

Trafododd y Cyngor yr adroddiad ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

| | |
|---|---|
| Cyfrif Trysorydd | £ 2,049.98 |
| Cyfrif Busnes | £19,022.93 |

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo yr adroddiad ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2026.

**ETHOL CADEIRYDD:**

Gwnaeth y Cynghorwyr ethol y Cynghorydd Huw James fel Cadeirydd.

**ETHOL IS-GADEIRYDD:**

Gwnaeth y Cynghorwyr ethol y Cynghorydd Elgan Williams fel Is-Gadeirydd.

**APWYNTIO PWYLLGORAU:**

Etholwyd y Cadeirydd ac yr Is-Gadeirydd i eistedd ar y pwyllgor Hawliau Ffyrdd.

Etholwyd pob Cynghorydd i eistedd ar y pwyllgor Asedau.

**ADOLYGU POLISIAU:**

Roedd y rheolau sefydlog priodol mewn lle a derbyniwyd y rheolau ariannol.

Adolygwyd y rhestr asedau drafft a oedd wedi eu ddiweddaru yn dilyn y storfa Newydd a brynwyd ac fe'i derbyniwyd.

Roedd y polisi yswiriant yn briodol ond bod angenn ychwanegu'r storfa newydd.

Roedd aelodaeth y Cyngor o gyrff eraill yn gyfamserol.

Nid oedd eisiau unrhyw newidiadau i drefn cwynion y Cyngor.

Roedd trefniadau y Cyngor i ddelio efo ceisiadau a wnaed dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheol Diogelu Data Cyffredinol 2018 yn gyfamserol.

Adolygwyd a derbyniwyd y Polisi Preifatrwydd a Pholisi Archif.

Cytunwyd i’r Clerc medru gwneud taliadau banc uniongyrchol trwy bancio ar-lein yn dilyn cymeradwyiaeth o’r anfonebau. Byddai cyflog y clerc a taliadau i Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn cael eu gwneud yn fisol/cwarterol ac holl taliadau eraill yn dilyn cymeradwyiaeth gan y Cynghorwyr.

**ASESIAD RISG:**

Adolygwyd yr asesiad risg ar gyfer gwaith y Cyngor ac fe’i dderbyniwyd. Adolygwyd yr asesiad risg ar gyfer y parc ac y cae chwarae, gwnaethpwyd newidiadau ac fe’i dderbyniwyd.

**LWFANS CYNGHORWYR:**

Dosbarthwyd y ffurflennu optio-allan i’r Cynghorwyr ac roeddent i’w cwblhau ac eu dychwelyd i’r clerc os nad oeddent mofyn tâl am eu gwaith.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL:**

Cafodd yr adroddiad drafft am 2025-2026 ei drafod a’i dderbyn.

**CYNLLUN BIOAMRYWIAETH:**

Trafodwyd y cynllun drafft am 2026-2027 ac fe’i gymeradwywyd.

**CYNLLUN HYFFORDDIANT:**

Trafodwyd a chytunwyd y Cynllun Hyfforddiant Drafft am 2026-2027.